



CANLLAW LLAWN AMSER
2023 - 2024

LLWYDDWCH

»» YN COLEG GWENT



LLWYDDWCH

>> YN COLEG GWENT

Mae'n amser cyffrous i ymuno â Coleg Gwent ac rwyf wrth fy modd eich bod chi'n ystyried astudio gyda ni. Yn y canllaw hwn, cewch hyd i lawer o wybodaeth ynghylch yr ystod eang o gyrsiau a gynigiwn, yn ogystal â'n gwasanaethau cymorth sydd wedi'u dylunio i'ch cynorthwyo chi i ffynnu yn y coleg.

P'un ai ydych chi'n chwilio am gyrsiau Lefel A neu gyrsiau galwedigaethol ymarferol, mae gennym rhywbeth i bawb yn ein coleg amrywiol a chynhwysol. Gydag addysgu hynod lwyddiannus, cyfleusterau sy'n arwain y sector, a gweithgareddau allgyrsiol i roi hwb i'ch CV, sy'n profi ein bod yn eich paratoi chi ar gyfer gyrfa lwyddiannus ac yn eich paratoi ar gyfer llwyddo. Felly, archwiliwch y cyrsiau sydd ar gael ar ein campysau a gwnewch gais heddiw!



GUY LACEY

>> PENNAETH A PHRIF WEITHREDWR



BYDD Y CANLLAW HWN YN
DARPARU'R HOLL WYBODAETH
SYDD EI HANGEN ARNOCH CHI
YNGHYLCH EIN

**CYRSIAU LLAWN
AMSER, LEFEL A,
GALWEDIGAETHOL A
PHRENTISIAETHAU**

Os ydych chi'n ystyried astudio cwrs rhan amser neu ar lefel prifysgol - cymerwch olwg ar ein canllawiau drwy sganio'r cod QR perthnasol:



**CANLLAW
ADDYSG
UWCH**



**CANLLAW
RHAN
AMSER**



CYNNWYS

2 Croeso

4 Digwyddiadau Agored

6 Dewis y cwrs gywir i chi

7 Eich Canllaw Cymhwysterau

8 Pam Coleg Gwent?

10 Ein Campysau

12 Bywyd yn Coleg Gwent

14 Eich Cefnogi Chi

16 Dysgu yn Gymraeg neu'n dwyieithog

17 Mathemateg, Saesneg a Gweithgareddau Sgiliau

18 Prentisiaethau

20 Lefel A

22 Cyfrifeg a Busnes

24 Amaethyddiaeth a Gofal Anifeiliaid

26 Celf a Dylunio, y Cyfryngau a Ffotograffiaeth

28 Arlwyyo a Lletygarwch

30 Cyfrifiadura a Thechnoleg Ddigidol

32 Colegau Seiber

33 Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL)

34 Adeiladu

36 Peirianeg

38 Trin Gwallt a Therapi Harddwch

40 Iechyd, Gofal a'r Blynyddoedd Cynnar

42 Sgiliau Byw'n Annibynnol

44 Cerbydau Modur

46 Cerddoriaeth, Drama a Dawns

48 Llwybr at Radd

50 Gwyddoniaeth

52 Chwaraeon, ffitrwydd a Hamdden

54 Gwasanaethau Cyhoeddus

55 Teithio a Thwristiaeth

DIGWYDDIADAU AGORED

>> LLWYDDWCH GYDA'CH CAM NESAF

Mae ein digwyddiadau agored yn trafod popeth y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohono ynghylch bywyd yn y coleg, cymorth, cyllid, ein cyrsiau a llawer mwy.

Rydym yn awgymru eich bod chi'n gofrestru ymlaen llaw drwy ein gwefan er mwyn cofrestru'n gyflym, ond mae croeso cynnes i bobl sy'n galw heibio yn ddirybudd hefyd. Mae pob un o'n campysau yn cynnig gwahanol bynciau, felly yn dibynnu ar ba bynciau rydych chi am eu trafod mewn digwyddiad agored, ewch i'r campws perthnasol.

EIN DIGWYDDIADAU

>> AR Y CAMPWS

Dydd Mawrth 8 Tachwedd 2022	5yp – 7.30yp
Dydd Mercher 25 Ionawr 2023	5yp – 7.30yp
Dydd Sadwrn 25 Mawrth 2023	10yb - 1yp
Dydd Iau 11 Mai 2023	5yp – 7.30yp
Dydd Mawrth 27 Mehefin 2023	5yp – 7.30yp

DIGWYDDIAD AGORED RHITHIOL

>> AR GYFER ADDYSG UWCH

Dydd Mercher 23 Awst 2023	6yp
---------------------------	-----

GOFRESTRU AR GYFER UN O'N DIGWYDDIADAU AGORED



>> [COLEGGWENT.AC.UK/AGORED](https://coleggwent.ac.uk/agored)





Ewch i'n platform rhithwir ar-lein yn: virtual.coleggwent.ac.uk/cy

Pam dewis Coleg Gwent?

Mae Gymnasium rygby'r haul ym Mynydd Gwent.
Deddfau'r ddeddf pam ydych chi'n
lawn i'w.

CYMRU/CYMRU

Edrychwch O Gwmpas

Campws Crowsley
Campws Brycheiniog
Parth Dysgu Blaenau Gwent
Parth Dysgu Torfaen
Campws Dinas Casnewydd

Ewch i'n platform rhithwir ar-lein yn: virtual.coleggwent.ac.uk/cy

Edrychwch O Gwmpas

☆
Pam dewis Coleg
Gwent?



Campws Brynbuga

gwent
Dyffwrdd Blaenau



Parth Dysgu Torfaen

Campws Dinas
Caernewydd

helo@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

DEWIS

>>> Y CWRS GYWIR I CHI

Yn y canllaw hwn, dylech chi gael rhai o'r atebion i'ch cwestiynau ond cofiwch gysylltu â ni os byddwch chi'n dal yn ansicr! Mae ein tîm recriwtio myfyrwyr wrth law ar dydd Llun – dydd lau 8.30yb – 4.30yp a dydd Gwener 8.30yb – 4yp.

PETHAU I'W HYSTYRIED WRTH DDEWIS EICH CWRS:

- > Rydych yn fwy tebygol o basio'ch cwrs os ydych yn dewis pwnc chi'n mwynhau!
- > Bydd dewis rhywbeth yr ydych yn dda ynddo yn golygu eich bod yn fwy tebygol o gael graddau da a chwblhau eich cwrs.
- > Meddyliwch beth yr hoffech ei wneud ar ôl gadael coleg - Prifysgol? Cael swydd? Hyfforddiant pellach? A fydd eich cwrs yn eich helpu i gyflawni hynny?

SUT I WNEUD CAIS

- ✓ 1. Dewis eich cwrs
- ✓ 2. Gwnewch gais ar-lein
- ✓ 3. Derbyn cynnig
- ✓ 4. Dewch i sesiwn gofrestru/cynefino*
- ✓ 5. Dechreuwch yn y coleg

*Fel rhan o'r broses cofrestru, byddwch yn cwblhau asesiad WEST - gweler tudalen 19 am fwy o wybodaeth.



CANLLAW

>> I'R CYMHWYSTERAU

Ddim yn siŵr pa gymhwyster yr ydych yn chwilio amdano neu pa lefel i gychwyn arni?

Dyma ganllaw i'ch helpu i ddewis y lefel gywir a dangos y math o swydd y gallai arwain ati. Bydd sut fyddwch chi'n astudio a hyd eich cwrs yn dibynnu ar beth ydych chi'n dewis ei astudio. Am ragor o wybodaeth, ewch i dudalennau gwybodaeth ynghylch cyrsiau ar ein gwefan.

LEFEL	CYMHWYSTER			LEFEL SWYDD
	Dysgu galwedigaethol	Dysgu academiaidd	Dysgu seiliedig ar waith	
7	Gradd Meistr/Doethuriaeth		NVQ 5	Gweithiwr proffesiynol siartredig
6	Gradd Anrhydedd		Prentisiaeth Uwch NVQ 4	
5	Gradd sylfaen, HND	Diploma mewn Addysg Uwch		Gweithiwr proffesiynol ym maes rheoli
4	HNC	Tystysgrif Addysg Uwch		
3	Diploma Estynedig Lefel 3 Diploma Lefel 3 Diploma Atodol Lefel 3 Tystysgrif Lefel 3	3 Safon Uwch 2 Safon Uwch 1 Safon Uwch 1 Safon UG	Uwch Brentisiaeth NVQ 3	Technegydd uwch, Goruchwyliwr medrus
2	Diploma Lefel 2 Tystysgrif Estynedig Lefel 2 Tystysgrif Lefel 2	4 TGAU (A*-C) 3 TGAU (A*-C) 2 TGAU (A*-C)	Prentisiaeth NVQ2	Gweithredydd lled-fedrus
1	Tystysgrif neu Ddiploma Lefel 1	TGAU (D-G)	Cynllun hyfforddiant NVQ1	Gweithredydd
MYNEDIAD	Sgiliau Sylfaenol/Sgiliau Bywyd			

Mae rhai o'n cyrsiau galwedigaethol Lefel 3 yn denu pwyntiau UCAS, yn union fel Lefel A. Mae'r swm yn dibynnu ar y cwrs rydych chi'n ei astudio, er enghraifft;

os byddwch yn astudio Diploma Lefel 3 gallwch ennill 90 credyd ar ôl ei gwblhau'n llwyddiannus, yna gallwch symud ymlaen i Ddiploma Estynedig Lefel 3, a fydd wedyn yn rhoi 180 credyd i chi. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn: www.ucas.com/tariff

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

PAM DEWIS

» COLEG GWENT

LLWYDDWCH GYDA NI

NI YW UN O GOLEGAU
MWYAF
LLWYDDIANNUS
CYMRU*

CYFRADD LLWYDDO
O 100% MEWN
45 O'N PYNCIAU
LEFEL A

1 O BOB 4 O'N DYSGWYR
LEFEL A YN
CYFLAWNI'R
GRADDAU A*/A UCHAF

CYFRADD
LLWYDDO UCHEL
YN EIN PYNCIAU
GALWEDIGAETHOL

1

RYDYM YMA AR EICH CYFER CHI

Mae gennym wasanaethau cymorth cynhwysfawr i'n holl ddysgwyr, er mwyn eich cynorthwyo chi i ragori ar eich cwrs. Rydym yn cynnig cymorth ychwanegol hefyd ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau.

GAEL RHAGOR O WYBODAETH AM EIN GWASANAETHAU CYMORTH:

» [WWW.COLEGGWENT.AC.UK/CY/SUPPORT](http://www.coleggwent.ac.uk/cy/support)

2

TIWTORIAID SYDD WEDI ENNILL GWOBRAU

Mae ein tiwtoriaid profiadol yn arbenigwyr yn eu maes, felly byddwch chi'n dysgu gan y goreuon. Mae'r gydnabyddiaeth am eu hymrwymiad drwy wobrau fel Gwobrau Addysg ac Ysgolion South Wales Argus, a Gwobrau Addysgu Pearson, a hyd yn oed yr MBE, yn arddangos y rhagoriaeth a'r arbenigedd sydd yn cael eu cynnig yn eich campws lleol.



3

DRINGO'R YSGOL YRFA

Mae gennym gysylltiadau cryf gyda chyflogwyr sy'n darparu profiad gwaith, prentisiaethau a chyfleoedd am leoliadau.



4

CYFLEUSTERAU O'R RADD FLAENAF

Mae gan ein campysau rai o'r cyfleusterau gorau sydd ar gael sy'n cynnwys salonau gwallt a harddwch, stiwdio recordio, canolfan profi nwy ACS, canolfan Baxi, canolfan foduro ATA, bwyty masnachol, theatrau perfformio a fferm weithiol a llawer mwy!



6

RYDYM YN GWRANDO ARNOCH!

Rydym yn gwrandao arnoch chi ac yn defnyddio eich adborth i wella'r profiad coleg - rydym wedi ennill gwobrau am ein gweithgareddau llais y dysgwr.

5

DIGONEDD O DDEWIS

Mae digonedd o ddewis pan mae'n dod yn fater o ddewis cwrs - rydym yn cynnig 32 pwnc Lefel A a thros 150 o gyrsiau galwedigaethol llawn amser. Gallwch chi hyd yn oed fynd yn eich blaen i ddilyn cwrs prifysgol hefyd gyda dewis o dros 40 cwrs lefel prifysgol.



*Adroddiad Canlyniad Dysgwr yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru 2019/20

CAMPYSAU

EISIAU GWYBOD MWY AM EIN CAMPYSAU?

Gyda phum campws i ddewis o'u plith, rydym yn hyderus byddwch chi'n siŵr o ddod o hyd i leoliad sy'n addas i chi. Beth am cofrestri ar gyfer un o'n digwyddiadau i gael golwg o amgylch (gweler tudalen 5) neu ewch ar daith rithiol drwy:

» VIRTUAL.COLEGGWENT.AC.UK/CY



» PARTH DYSGU TORFAEN T

Wedi'i leoli yng nghanol Cwmbrân, mae cyrraedd at ein campws diweddaraf yn rhwydd ar gludiant cyhoeddus. Gan gynnig ystod eang o dros 30 o bynciau Lefel A, cyrsiau galwedigaethol lefel 2 a 3, graddau Sylfaen a Bagloriaeth Cymru, mae Parth dysgu Torfaen yn gartref i bob darpariaeth Lefel A cyfrwng Saesneg.



» CAMPWS BRYNBUGA B

Ar gampws gwledig Brynbuga y darperir ein cyrsiau amaethyddiaeth, chwaraeon, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus. Gyda fferm weithio 296 acer, canolfannau anifeiliaid a cheffylau, campfa wedi'i hailwampio a chyfleusterau chwaraeon ac addysg awyr agored, rydym yn croesawu oddeutu 850 o ddysgwyr bob blwyddyn o bob rhan o'r DU. Mae'n hawdd ein cyrraedd o Drefynwy, y Fenni, Cas-Gwent, Cwmbrân, Pont-y-pŵl a Chasnewydd, ac rydym yn agos at draffordd yr M4, sy'n wych ar gyfer myfyrwyr sy'n teithio o bell.



» CAMPWS CROSSKEYS C

Mae ein campws mwyaf yn cynnig dros 30 pwnc Lefel A, yn ogystal â chymwysterau gradd ac amrywiaeth eang a chyfoethog o gyrsiau galwedigaethol. Mae gan y campws gyfleusterau theatr trawiadol hefyd ar gyfer y celfyddydau perfformio; bwyty a salon trin gwallt a harddwch sydd ar agor i'r cyhoedd; cyfarpar o safon y diwydiant ar gyfer cyrsiau gweithgynhyrchu uwch; llyfrgell gyda chyfrifiaduron Mac, llyfrau a mynediad at gyfnodolion ar-lein.



» CAMPWS DINAS CASNEWYDD DC

Gan gynnig ystod eang o gyrsiau galwedigaethol ac academiaidd, mae gan ein campws Dinas Casnewydd lu o gyfleusterau - gan gynnwys gweithdai peirianneg ac adeiladu gyda chyfarpar da, stiwdios celf, labordai gwyddoniaeth, salon trin gwallt a harddwch, yn ogystal ag ystafell technoleg ddigidol arloesol. Mae gan Gampws Casnewydd gysylltiadau cludiant cyhoeddus gwych ac mae'n rhwydd ei gyrraedd o'r M4. Mae hefyd o fewn pellter cerdded i Barc Manwerthu Sbyty a Phentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd.



» PARTH DYSGU BLAENAU GWENT BG

Agorwyd Parth Dysgu arloesol Blaenau Gwent yn 2012, ac mae bellach yn gartref i holl addysg Lefel A y sir, ac mae hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau addysg uwch a galwedigaethol. Yno, ceir canolfan gweithgynhyrchu uwch, cyfleusterau o'r radd flaenaf yn cynnwys gweithdai adeiladu pwrpasol, stiwdios recordio, ystafelloedd cyfrifiaduron Mac, neuadd berfformio, salonau gwallt a harddwch sydd ar agor i'r cyhoedd, llyfrgell a char rasio ac awyren ein hunain!

BYWYD YN

>> COLEG GWENT



SGILIAU BYWYD

Profwch eich sgiliau drwy gystadlu yn WorldSkills UK a Chystadleuaeth Sgiliau Cymru. O gael cyfle i rwydweithio gydag arbenigwyr mewn diwydiant, byddwch chi'n datblygu sgiliau megis datrys problemau, gweithio dan bwysau, a chystadlu ar lefel ryngwladol! Rydym yn cael ein rhestru'n aml ymhlith y 10 enillydd yn nhabl y gynghair, felly gallwch chi fod yn sicr y byddwch chi'n cael eich hyfforddi gan y goreuon!



YMUNO Â THÎM LLWYDDIANNUS

Os ydych chi'n teimlo'n gystadleuol, gallwch ymuno â'n timau chwaraeon p'un ai eich bod chi eisoes yn cystadlu ar lefel elitaidd, neu eich bod eisiau rhoi cynnig ar rywbeth newydd a chadw'n ffit ac iach. Mae ein timau chwaraeon yn gynhwysol ac amrywiol.



YN CEFNOGI AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Yn Coleg Gwent, mae ein gwerthoedd craidd yn hyrwyddo parch a derbyniad tuag at bawb. Rydym yn benderfynol o wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein coleg yn fan y bydd pawb – ddysgwyr a staff - yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu.



EIN SIARTER AMRYWIAETH

DIM BEIRNIADAETH
sylweddolwch fod pawb ohonom yn wahanol

MAE YMDDYGIAD YN BWYSIG

GWERTHFAWROGI SAFBWYNTIAU ERAILL

PARCH AT BAWB

DERBYN NAD OES CYWIR NAC ANGHYWIR



CG UCHELGEISIAU

Bydd ein tîm CG uchelgeisiau yma yn Coleg Gwent yn darparu cymorth gyda sgiliau cyflogadwyedd, cyngor ar yrfaedd, a chanllawiau dechrau busnes i'ch cynorthwyo chi i gyflawni eich nodau. O groesawu siaradwyr ysbrydoledig o'r diwydiant, hyfforddiant cyfweiliadau a chwilio am waith, i'ch cynorthwyo chi i gwblhau eich CV neu gynllun busnes - mae CG Uchelgeisiau yn eich cynorthwyo chi i baratoi at y byd gwaith, a'r camau nesaf ar eith taith gyrfa!



UNDEB Y MYFYRWYR CG

Beth am ymuno ag Undeb Myfyrwyr eich campws a sicrhau bod eich llais chi'n cael ei glywed? Gallwch chi bleidleisio am swyddogion etholedig neu ddod yn un eich hun. Fel aelod o'r undeb gallwch chi gymryd rhan mewn codi arian, digwyddiadau, ymgyrchoedd a fforymau, a llawer mwy. Gallwch hefyd ddod yn gynrychiolydd dosbarth a gwneud gwahaniaeth trwy gynrychioli llais y dysgwr.



CG EXTRA

Mae slot amser penodol ar eich amserlen i ymuno â CG Extra; gallwch chi ymuno â gweithgareddau a gwirfoddoli, chwaraeon a ffitrwydd, clybiau a chymdeithasau, cerddoriaeth a drama a Gwobr Dug Caeredin. Mae'n gyfle gwych i wneud ffrindiau newydd, ennill sgiliau bywyd gwerthfawr, dod yn fwy annibynnol a gwella eich cyflogadwyedd!



ARBEDWCH £££ GYDA TOTUM

Cofrestrwch ar gyfer cerdyn TOTUM, cerdyn disgownt myfyriwr gorau'r DU, a byddwch y cyntaf i gael gwybod am gynigion unigryw i fyfyrwyr! Byddwch chi hefyd yn derbyn ID profi oed, wedi'i achredu'n llawn, yn rhad ac am ddim gyda'ch cerdyn.

>> LLWYDDWCH YN EICH FFORDD CHI

YN EICH CEFNOGI

CYLLID

Yn dibynnu ar eich oedran a'ch sefyllfa ariannol, gallech fod yn gymwys am fwy o gymorth nag y tybioch. Mae'r cyllid y gallech fod yn gymwys amdano yn cynnwys:



Cyllid y gallech fod yn gymwys i'w gael yn cynnwys:

- Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA)
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC)
- Cronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF)
- Cronfa Cymorth Dewisol (DAF) yng Nghymru
- Gwobr Datblygu Ymddiriedolaeth y Tywysog

➤➤ WWW.COLEGGWENT.AC.UK/CYLLID



Mae Togetherall yn gymuned ar-lein ar gyfer cymorth iechyd meddwl, gyda mynediad 24/7 at weithwyr proffesiynol hyfforddedig. Gan gynnig arbenigedd clinigol, cefnogaeth cymheiriaid ac amgylchedd diogel ar-lein, ei nod yw gwella lles meddyliol mewn ffordd gynhwysol ac anfeirniadol. Mae Togetherall yn cynnwys hunanasesiadau, cyrsiau hunan-gyfeiriedig ac adnoddau creadigol. Bydd y rhain yn eich helpu chi i reoli cyflyrau ie-chyd meddwl, cymryd rheolaeth, teimlo'n well a chynnal llesiant med-dyliol cadarnhaol yn ystod eich amser yn y coleg. Yn ogystal, gall aelodau gefnogi ei gilydd yn ddienw.

CYMORTH YSBRYDOLRWYDD A LLESANT

Eich iechyd a'ch lles chi yw ein blaenoriaeth. Byddwn yn sicrhau eich bod yn ddiogel pan fyddwch yn astudio gyda ni ac yn eich cefnogi gydag anawsterau personol. Gallwch ddefnyddio ein gwasanaethau cwnsela a chaplaniaeth cyfrinachol a gallwn hefyd eich rhoi chi mewn cysylltiad ag asiantaethau allanol. Mae ystafelloedd gweddio amlfydd hefyd ar gael ar y campws. Os hoffech chi wybod mwy am y cymorth helaeth rydyn ni'n ei gynnig, ewch i'n gwefan:

➤➤ WWW.COLEGGWENT.AC.UK/CYMORTH

Y LLYFRGELL

Yn ogystal â llyfrau, cyfnodolion, eLyfrau a DVDs gallwch ddefnyddio cyfrifiaduron personol neu gysylltu eich dyfais eich hun a'n Wi-Fi am ddim yn y Llyfrgell. Mae staff wrth law i'ch helpu chi i ddod o hyd i adnoddau a chael mynediad at wasanaethau eraill fel llungopïo, lamineiddio a rhwymo.

RHWYDWAITH SEREN

Rydym eisiau sicrhau bod pob un o'n myfyrwyr yn cyflawni eu potensial. Mae'r Rhwydwaith Seren yn darparu sylfaen arbennig i bob myfyriwr a gafodd raddau A* yn TGAU i ymgeisio am le gyda phrifysgolion cystadleuol a dethol Grŵp Russell (grŵp o brifysgolion gyda ffocws cyfunol ar ymchwil ac enw da o ran cyflawniad academiaidd). Nod y gweithgareddau a ddarperir yw hybu hyder a gwynnwch, yn ogystal ag ehangu dealltwriaeth o'r pwnc, eich helpu i ddatblygu'r nodweddion y mae prifysgolion Grŵp Russell yn eu gwerthfawrogi ac yn chwilio amdanynt yn eu hymgeiswyr.



TIWTORIAID PERSONOL

Nel myfyriwr llawn amser byddwch yn cael eich Tiwtor Personol eich hun a fydd yn cyfarfod â chi i adolygu eich cynnydd academiaidd, darparu cymorth, cynnig arweiniad ac anogaeth i sicrhau eich bod yn cwblhau holl agweddau eich cwrs yn llwyddiannus. Yn ogystal â gofalu am eich llesiant cyffredinol, bydd tiwtoriaid personol hefyd yn eich paratoi chi at eich camau nesaf yn y coleg, prifysgol neu fyd gwaith.



CYMORTH AR GYFER ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Os oes gennych anhawster dysgu a/ neu anabled, gallwn ddarparu llawer o gymorth. Gallai hyn gynnwys:

- Cymorth yn y dosbarth gan Gynorthwydd Cymorth Ychwanegol
- Sesiynau ychwanegol i helpu gydag aseiniadau a gwaith cwrs
- Cymorth gan Weithiwr Cymorth Cyfathrebu (i fyfyrwyr byddar a nam ar y clyw)
- Cymorth dyslecsia
- Mynediad at y tîm Ysbrydoli i Gyflawni
- Sesiynau ARROW i'ch helpu i wella eich sgiliau darllen a sillafu
- Defnydd o feddalwedd argaeledd gan gynnwys hyfforddiant cychwynnol
- Trefniadau mynediad i arholiadau

THEITHIO A THRAFNIDIAETH

Ddim yn siŵr sut yr ydych am deithio i'r coleg? Mae gennym gynllun pas bws i fyfyrwyr sy'n eich galluogi i gael prisiau gostyngol wrth deithio yn ôl ac ymlaen o'n campysau! Byddwch hefyd yn cael prisiau gostyngol gyda'r nosau, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau (ac eithrio gwyliau'r haf).

➤➤ WWW.COLEGGWENT.AC.UK/TRAFNIDIAETH



DYSGU

»» YN GYMRAEG AC YN DDWYIEITHOG



Mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn bwysig i ni.

Rydym yn annog holl aelodau cymuned y coleg, boed yn siaradwyr Cymraeg ai peidio, i ddeall pwysigrwydd yr iaith Gymraeg fel sgil bersonol ac addysgol yn ogystal â sgil gyflogadwyedd ar gyfer y dyfodol.



AR HYN O BRYD RYDYM YN CYNNIG:

- Y cyfle i astudio rhai modiwlau ar ddetholiad o gyrsiau yn ddwyieithog
- Y cyfle i astudio Cymraeg fel ail iaith
- Cefnogaeth yn yr iaith Gymraeg neu gefnogaeth astudio'n ddwyieithog drwy 'HWB Cymraeg' a gweithgareddau cymdeithasol drwy'r 'Clwb Cymraeg'
- Unedau dwyieithog ar ein cwrs Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysg a Datblygiad Plant, Cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus.
- Y cyfle i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a defnyddio'r iaith yn Coleg Gwent drwy ddod yn Fydi Cymraeg
- Yr opsiwn i ysgrifennu aseiniadau ac ymgymryd ag aseiniadau ac arholiadau yn Gymraeg*
- Darpariaeth i gael mynediad at diwtorialau yn Gymraeg
- Lleoliadau a phrofiad gwaith cyfrwng Cymraeg
- Y cyfle i ennill sgiliau hanfodol neu allweddol yn ddwyieithog neu yn Gymraeg

»» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/CYMRUGG

*Pan fo'r bwrdd arholi yn gallu darparu papurau arholi yn Gymraeg

ASTUDIAETHAU CRAIDD

»» MATHEMATEG, SAESNEG A GWEITHGAREDDAU SGILIAU

MATHEMATEG A SAESNEG:

Yn Coleg Gwent, rydym yn canolbwyntio ar addysgu'r sgiliau sy'n mynd i fod o fudd i chi pan fyddwch yn gwneud cais i brifysgol, yn cael swydd, neu'n symud ymlaen i astudiaeth bellach. Oherwydd hyn, mae pob cwrs a gynigir gennym yn cynnwys datblygiad Saesneg a Mathemateg pellach. Os nad ydych yn meddu ar radd C ar lefel TGAU mewn unrhyw bwnc pan ydych yn ymuno â ni, byddwch yn mynychu dosbarthiadau arwahanol i'ch helpu chi i weithio tuag at y lefel hon.

»» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/MS

GWEITHGAREDDAU SGILIAU

Tra bod eich cymhwyster yn bwysig iawn, mae'r sgiliau ychwanegol y mae cyflogwyr yn dweud y byddwch eu hangen yn y gweithle megis datrys problemau, gwaith tîm a gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun hefyd yn bwysig iawn. Trwy ein menter Gweithgareddau Sgiliau, gallwch gymryd rhan mewn gwirfoddoli, profiad gwaith a chlybiau a chymdeithasau. Yn ogystal ag edrych yn dda ar eich CV, gall y gweithgareddau hyn fod yn werth chweil ac yn llawer o hwyl.

Unwaith y byddwch yn cychwyn ar eich cwrs, byddwch yn cwblhau asesiad Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST). Nid yw'n ddim i boeni amdano, dim ond sicrhau ein bod yn eich darparu gyda'r lefel gywir o gymorth pan fyddwch yn cychwyn.

»» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/SGILIAU

Efallai nad Mathemateg a Saesneg yw hoff bynciau pawb, ond maent yn rhai o'r sgiliau pwysicaf y gallwch eu cael. P'un ai ydych yn anfon neges destun i'ch ffrind neu'n talu am eich siopa, rydych yn defnyddio'r offer hyn bob dydd. **Maent yn sgiliau y mae cyflogwyr yn eu disgwyl ac yn eu gwerthfawrogi pan fyddwch yn chwilio am swydd.**



PRENTISIAETHAU

Gwyddom nad yw addysg llawn amser yn addas i bawb.

Os ydych eisiau cychwyn gweithio, ond eisiau ennill cymwysterau ochr yn ochr â'ch sgiliau newydd a phrofiad, efallai mai prentisiaeth yw'r peth i chi.



YN COLEG GWENT, GALLWCH WNEUD PRENTISIAETHAU MEWN:

- Gosod Brics
- Gwaith Coed
- Peirianeg Drydanol
- Gosodiadau Trydanol
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Peirianeg Fecanyddol
- Cerbydau Modur - cerbyd ysgafn a thrwm
- Cerbydau Modur - atgyweirio a phaentio corff cerbyd
- Adeiladu
- Plymio
- Weldio

MAE PRENTISIAETHAU'N DARPARU:



SWYDD GO IAWN

Rhowch eich sgiliau newydd ar waith yn y gweithle, a dewch i'r coleg, un diwrnod yr wythnos fel arfer.



CYMHWYSTER GO IAWN

Cymhwyster cenedlaethol sy'n cael ei gydnabod gan gyflogwyr ar hyd a lled y byd. Gwell sgiliau, gwell dyfodol!



TÂL GO IAWN

Ar ben y profiad o ddiwydiant, sgiliau ar gyfer y gweithle a'r cymwysterau, rydych hefyd yn cael eich talu!



DYFODOL GO IAWN

Mae prentisiaethau'n rhoi i chi'r sgiliau y mae cyflogwyr eisiau eu gweld. Gall hynny agor drysau i chi yn y dyfodol.

A YDW I'N GYMWYS?

I wneud Prentisiaeth, mae'n rhaid i chi fod:

- Wedi'ch cyflogi yn y sector perthnasol, gael contract cyflogaeth a chael eich talu yn unol â'r isafswm cyflog cenedlaethol
- Ddim mewn addysg llawn amser
- Yn barod i gwblhau'r cymwysterau sydd yn tanategu'r brentisiaeth
- Yn byw ac/neu yn gweithio yng Nghymru

Am ragor o wybodaeth ac i wneud cais heddiw:

➤➤ WWW.COLEGGWENT.AC.UK/PRENTISIAETHAU



“

Mae'n well gen i fy mhrentisiaeth na mynd i'r coleg yn llawn amser, cant y cant! Rydych chi'n cael cymaint mwy o brofiad ymarferol ac mae'n llai dwys nag astudio'n llawn amser. Roedd bwrw prentisiaeth hefyd yn apelio oherwydd roedd yn golygu y gallwn i ennill arian wrth astudio am fy nghymwysterau

JADE PARRY

➤➤ **NHC PEIRIANNEG DRYDANOL**

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

CYRSIAU LEFEL A

Yn Coleg Gwent, mae gennym dros 30 o gyrsiau Lefel A ichi ddewis ohonynt - sy'n rhoi digon o ddewis ichi symud gam yn nes at eich nodau ar gyfer y dyfodol.

Rydym yn cynnig rhaglenni astudio unigryw sy'n canolbwyntio'n llwyr ar ddarparu'r sgiliau, profiadau a'r cymwysterau diweddaraf i'ch galluogi chi i ddilyn gyrfa neu radd prifysgol mewn maes diddordeb penodol.

Bydd angen ichi ddewis isafswm o 3 neu 4 o bynciau Lefel A. Mae'n bwysig wrth ddewis eich cyfuniadau Lefel A, eich bod chi'n dewis y pynciau cywir ar gyfer yr yrfa y byddwch eisiau ei dilyn.

AM EIN CYRSIAU LEFEL A:


96.2%
CYFRADD LLWYDDO LEFEL A


MAE GENNYM GYFRADD LLWYDDO TRAWIADOL O 100% MEWN 45 PWNC LEFEL A AR DRAWS COLEG GWENT


BU I 1 O BOB 4 O'N DYSGWYR LEFEL A GYFLAWNI'R GRADDAU A*/A UCHAF



OEDDECH CHI'N GWYBOD?

Gallwch chi ennill mwy o bwyntiau UCAS wrth astudio cyrsiau Safon Uwch yng Nghymru yn hytrach na Lloegr? Fel Coleg Cymraeg, rydym yn cynnig cyrsiau UG yn ystod y flwyddyn gyntaf o astudio, gydag A2 (Lefel A) yn yr ail flwyddyn. Gallwch ennill pwyntiau UCAS o'ch UG a Lefel A, yn ogystal ag astudio eich Bagloriaeth Cymru. Fydd hyn yn rhoi gwell cyfle i chi ennill y pwyntiau sydd eu hangen arnoch chi i astudio'n bellach.*

“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent i astudio cyrsiau Safon Uwch, maen nhw'n cynnig llawer mwy o gyfleoedd nag sydd yn yr ysgol uwchradd. Mae llawer mwy o annibyniaeth yn y coleg ac ymreolaeth fel dysgwr. Mae'r athrawon yno fel cymorth, ac mae'r amgylchedd yn un hamddenol sy'n adlewyrchu prifysgol. Rwyf nawr yn mynd ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt.

TOM FRENCH
» LEFEL A

BETH NESAF? >>>



Mae cyrsiau Lefel A yn agor y drws i nifer o opsiynau, gallwch chi astudio cwrs lefel prifysgol ar eich hiniog yma yn Coleg Gwent, neu gallwch chi fynd yn eich blaen i astudio lefel uwch mewn prifysgol arall. Mae dros 80% o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudio ar lefel uwch! Efallai y byddwch chi eisiau defnyddio'ch cymwysterau i gael swydd neu ddilyn prentisiaeth uwch.

EIN CYRSIAU

Campws

Celf a Dylunio	BG	C	T
Bioleg	BG	C	T
Astudiaethau Busnes	BG	C	T
Cemeg	BG	C	T
Cyfrifiadureg	BG	C	T
Troseddeg	BG	C	T
Technoleg Ddigidol	BG	C	T
Drama ac Astudiaethau'r Theatr	BG	C	T
Economeg	C	T	
Iaith a Llenyddiaeth Saesneg	BG	C	T
Llenyddiaeth Saesneg	BG	C	T
Astudiaethau Ffilm	C	T	
Ffrangeg	C		
Mathemateg Bellach	BG	C	T
Daearyddiaeth	BG	C	T
Daeareg	T		
Y Llywodraeth a Gwleidyddiaeth	BG	C	T
Dylunio Graffeg	C	T	
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	BG		
Hanes	BG	C	T
Y Gyfraith	BG	C	T
Mathemateg	BG	C	T
Astudiaethau'r Cyfryngau	BG	C	T
Cerddoriaeth	BG	C	T
Athroniaeth	T		
Ffotograffiaeth	BG	C	T
Addysg Gorfforol	BG	C	T
Ffiseg	BG	C	T
Seicoleg	BG	C	T
Addysg Grefyddol	BG	C	T
Cymdeithaseg	BG	C	T
Sbaeneg	C		
Cymraeg	BG	C	T

*Mae cyrsiau CBAC yn gymwysterau 30 credyd ym mlwyddyn 1 sy'n gyfwerth ag UG, ac ym mlwyddyn 2, mae'r cyrsiau CBAC yn gymwysterau 60 credyd sy'n gyfwerth ag A2.

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

CYFRIFEG A BUSNES



aat

Yn ein byd modern, mae busnes a masnach yn rheoli bron bob agwedd ar ein bywydau, felly gallwch chi ddisgwyl i'r astudiaethau fod yn eang, ond gyda'r cyfle i arbenigo.

Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol sydd â'r nifer fwyaf swyddi yng Nghymru, gwlad sydd ag enw da ynddi y maes hwn. Mae llawer o'n dysgwyr busnes a rheolaeth mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ar draws y DU, naill ai mewn a cyd-destun busnes eang neu arbenigo mewn meysydd fel marchnata, adnoddau dynol neu gyllid.

Mae rhai o'r cyflogau uchaf yn cael eu talu yn y sector hwn; gallai cyfrifydd sydd wedi cymhwyso'n llawn ennill oddeutu



£70,000

Y FLWYDDYN

(EMSI, 2021)



BETH NESAF? >>



Gallwch chi aros yn agosach at adref ac astudio cwrs prifysgol yn Coleg Gwent neu roi'r hyn a ddysgwyd gennych chi ar waith drwy fynd i mewn i swydd yn syth. Aiff llawer o'n myfyrwyr busnes a rheoli ymlaen i astudio mewn prifysgolion ledled y DU, un ai mewn cyd-destun busnes eang neu arbenigo mewn meysydd fel marchnata, AD neu gyllid. Fel arall, pam na wnewch chi wella eich sgiliau ymhellach mewn cynllun hyfforddi neu brentisiaeth? Gall egin entrepreneuriaid ddechrau eu busnes eu hunain hyd yn oed!



EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Cyfrifeg	2	DC
Cyfrifeg Uwch	3	DC
Cadw Llyfrau	3	DC
Busnes	2	C T
Busnes	3	BG C DC T
Cyfrifeg Proffesiynol	4	DC
Astudiaethau Galwedigaethol - Busnes, Gwasanaeth Cwsmer a TGCh	1	T



“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent gan fod ganddynt ddigon o gyfleoedd, cyrsiau ac amrywiaeth. Rwy'n astudio busnes ac yn mynd yn fy mlaen i ddilyn cwrs rheoli busnes a marchnata ym Mrifysgol Metropolitan Caerdydd, a hoffwn gweithio yn y byd marchnata yn y pendraw. Mae yna llawer mwy o gan o opsiynau na'r chweched dosbarth, mae yna reolau a strwythur llym mewn ysgol, ond mae mwy o ryddid yn y coleg. Mae pawb yn gyfeillgar a chroesawgar, maent yn ei wneud mor hwyliog â phosib.

JACOB LEIGH HOOPER
 >> DIPLOMA ESTYNEDIG BUSNES

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

AMAETHYDDIAETH A GOFAL ANIFEILIAID

P'un ai ydych chi'n frwdfrydig ynghylch marchogaeth, yn egin ffermwr neu'n ystyried gweithio mewn milfeddygfa - bydd ein cwsr amaethyddiaeth a gofal anifeiliaid yn darparu'r profiad a'r cymwysterau sydd eu hangen arnoch chi i lwyddo.

RYDYM YMA I'CH CYNORTHWYO CHI I DROI'CH DIDDORDEBAU YN YRFA BOSIB

GOFAL ANIFEILIAID BACH



Os ydych chi'n hoff o anifeiliaid llai, byddwch chi'n bwydo, yn glanhau ac yn gofalu am amrywiaeth o gwningod, moch cwta a rhywogaethau mwy egsoftig gan gynnwys ymlusgiaid. Wrth eich bodd â chathod? Mae ein canolfan gofal anifeiliaid yn gartref i'n canolfan ailgartrefu cathod Blue Cross.

RHAI SYDD WRTH EU BODD YN MARCHOGAETH



Os ydych chi'n hoffi marchogaeth, byddwch wrth eich bodd â'n cyrsiau ceffylau! Gydag ysgolion y tu mewn ac yn yr awyr agored a'n cyfleusterau lifrai, byddwch chi'n dysgu sut i ofalu am geffylau, yn archwilio eu hymddygiad ac yn datblygu'ch sgiliau marchogaeth mewn amgylchedd proffesiynol.

EGIN FFERMWYR



Mae ein fferm weithiol yn cynnig y cyfle i egin ffermwyr weithio gyda pheiriannau o safon diwydiant a bydd ein gwartheg a'n defaid yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad i chi fynd gyda chi i'r byd gwaith.



A WYDDOCH CHI?

Gweithwyr Gofal Anifeiliaid, Milfeddygon a Nyrsys Milfeddygol yw'r tair swydd sy'n tyfu gyflymaf yn y sector Ffermio. (Gyrfa Cymru, 2022)



BETH NESAF? >>>

Gallwch chi fynd yn eich blaen i un i'n cyrsiau lefel prifysgol (addysg uwch) yma yn Coleg Gwent, neu gallwch chi fynd ymlaen i astudio mewn prifysgol arall yn y DU. Neu fel arall, gallwch chi fynd yn syth i mewn i swydd; yn ôl Gyrfa Cymru mae 64% o ffermwyr dros 55 oed, felly mae'r galw am recriwtiaid newydd yn uchel.

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Gofal Anifeiliaid (Llwybrau Anifeiliaid Fferm / Anifeiliaid Bach / Tacluso)	2	B
Rheolaeth Anifeiliaid	3	B
Gofal Ceffylau	2	B
Rheolaeth Ceffylau	3	B
Astudiaethau'r Tir - Amaethyddiaeth, Anifeiliaid a Cheffylau	1	B
Cynorthwyr Gofal Milfeddygol	2	B



“

Fe ddes i ddigwyddiad agored a gweld bod y cyfleusterau'n rhagorol ac yn well nag unrhyw beth arall roeddwn wedi eu gweld erioed. Y cyfleusterau sydd gennym ar y cwrs yw'r brif fferm sydd dros 600 acer mewn maint, y ganolfan farchogaeth a'r uned gofal anifeiliaid. Fy nodau tymor hir a chynllun gyrfa ar ôl y coleg yw gweithio fel gweithiwr fferm cyffredinol a gweithio fy ffordd i fod yn berchen ar fy fferm fy hun yn y pendraw.

KIAHREN PETTICAN

» GOFAL ANIFEILIAID

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

CELF A DYLUNIO, Y CYFRYNGAU A FFOTOGRAFFIAETH

Gadewch i'ch dawn artistig ddisgleirio; ein stiwdios
yw'r fan berffaith i chi fynegi eich hun, i arbrofi gydag
amrywiaeth o dechnegau ac i ddewis arbenigedd.

Gyda mwy na 8,500 o swyddi i'w llenwi yn y sector hwn
yng Nghymru erbyn 2024, gallai swydd newydd fod yn
aros amdanoch!

Mae'r diwydiannau creadigol yn hybu twf economaidd
ledled y DU, ac ar drywydd i greu miliwn o swyddi
newydd yn y diwydiannau creadigol rhwng 2013 a 2030.

Gall hyn fod yn

1000

O SWYDDI NEWYDD BOB WYTHNOS

**BOB BLWYDDYN MAE
GENNYM ARDDANGOSFEYDD
GAN FYFYRWYR I ARDDANGOS
EICH GWAITH GORAU,
GAN ROI'R PROFIAD SYDD EI ANGEN
ARNOCH CHI AR GYFER Y
BRIFYSGOL NEU'R BYD GWAITH**



**Y TROSIANT BLYNYDDOL
AR GYFER DIWYDIANNAU
CREADIGOL YNG NGHYMRU
YN £2.2BN**

(Gyrfa Cymru, 2022)



BETH NESAF? >>>

Gallwch chi fynd yn eich blaen i gwrs
lefel prifysgol mewn astudiaethau
creadigol yn Coleg Gwent. Mae
llawer o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen
i astudio mewn prifysgolion ym
mhob cwr o'r DU, gan astudio cyrsiau
creadigol cyffredinol neu arbenigo
mewn meysydd megis ffasiwn,
ffotograffiaeth, dylunio graffigol,
celfyddyd gain a mwy. Bydd eraill yn
rhoi'r hyn y maent wedi'i ddysgu ar
waith mewn swyddi megis dylunio
graffigol/gwefannau, dylunio ffasiwn
ac animeiddio.

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Celf a Dylunio	2	C DC T
Celf a Dylunio	3	BG C DC T
Celf a Dylunio (Celf a Dylunio, Ffotograffiaeth, Ffasiwn a Thecstilau)	3	C
E-chwaraeon (Cynhyrchu a Thechnoleg Cyfryngau Creadigol)	3	BG
Astudiaethau Sylfaenol (Celf a Dylunio)	3	DC
Dylunio Gemau	3	C
Y Cyfryngau	2	C DC T
Y Cyfryngau	3	BG C DC T
Sgiliau ar gyfer Gwaith yn y Diwydiannau Creadigol a Dylunio	2	BG
Colur Theatraidd	3	C
Astudiaethau Galwedigaethol - Celf a'r Cyfryngau Creadigol	1	C DC T
Celfyddyd Trin Gwallt a Cholur y Cyfryngau	2	C



“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent gan eich bod yn cael eich dysgu un i un ac mae'r tiwtoriaid yn hyfryd iawn. Byddwn hefyd yn argymhell Celf a Dylunio oherwydd rydych yn cael gwneud cymysgedd o bethau bob dydd, felly gallwch fod yn greadigol iawn mewn nifer o wahanol ffyrdd. Roeddwn yn teimlo bod y llwybr hwn yn fwy addas i mi na'r chweched dosbarth gan ei fod yn gwrw mor greadigol.

KOBY DAVIES

» CELF A DYLUINIO

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

ARLWYO A LLETYGARWCH

Mae gweithio yn y diwydiant arlwyio a lletygarwch yn golygu eich bod yn aml wrth galon darparu gwasanaeth cwsmeriaid eithriadol, mae ein cyrsiau yn rhoi'r sgiliau i chi i sicrhau eich bod yn darparu profiad cadarnhaol o'r argraff gyntaf.

Gyda gweithlu o dair miliwn, a thwff flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae'r sector arlwyio yn gyfrannwr sylweddol i economi'r DU a all gynnig ystod anferth o gyfleoedd i chi.



**Y DIWYDIANT LLETYGARWCH
YW'R 4YDD CYFLOGWR
MWWYAF YN Y DU, AC MAE'N
GYFRIFOL AM 3.2 O SWYDDI**

(UK hospitality, 2021)



ACADEMI FFORWM Y COGYDDION



Coleg Gwent yw'r coleg cyntaf i gynnig Academi Fforwm y Cogyddion yng Nghymru. Wrth weithio â'r Academi, mae ein myfyrwyr wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau yng Ngholeg Dinas Bryste, Gwesty'r Marriott Caerdydd a Bwyty a Bar Park House. Bydd hyn yn adeiladu eich repertoire profiad gwaith ac yn rhoi'r cyfle i chi arddangos eich sgiliau i gyflogwyr lleol.

BETH NESAF? >>>

Mae mwy na chwarter miliwn o bobl yn cael eu cyflogi fel cogyddion yn y DU (Ffynhonnell: Gyrfa Cymru) ond mae swyddi eraill yn y sector arlwyio a lletygarwch yn cynnwys staff bar a gweini, rheoli gwestai a sommeliers.



EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Lletygarwch ac Arlwyo	Mynediad 3	C
NVQ mewn Gwasanaethau Lletygarwch	1	C
Coginio Proffesiynol	1	C
Coginio Proffesiynol	2	C
Coginio Proffesiynol - Cegin a Phantri	3	C



“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent oherwydd fe gewch lawer o brofiad o ddiwydiant, rydych yn dysgu llawer yn ogystal â gwneud digonedd o ffrindiau. Mae'r athrawon yn garedig tu hwnt. Mae ganddynt fwyty proffesiynol sydd ar agor i'r cyhoedd felly gallwch ddysgu gweithio'n gyflym a'r gallu i weithio yn y gegin, yn ogystal â sut i weithio fel tîm.

CLARK PARRY

» COGINIO PROFFESIYNOL

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

CYFRIFIADURA A THECHNOLEG DDIGIDOL

Mae'r byd digidol yn datblygu'n gyflym ac mae cyflogwyr angen timau blaengar i ddatblygu meddalwedd a rheoli systemau a rhwydweithiau.

SGILIAU Y MAE GALW MAWR AMDANYNT



Nawr mae'r DU - a'r byd cyfan - yn gwbl ddibynol ar gyfrifiaduron a thechnoleg ddigidol ac mae caledwedd a meddalwedd yn datblygu ac yn newid drwy'r amser. Felly gall rhywun ag arbenigedd mewn cyfrifiaduron, y rhyngrwyd neu dechnoleg gwybodaeth yn gyffredinol ddefnyddio ei sgiliau a'i addysg i weithio mewn unrhyw sector o'i ddewis fwy neu lai; dyna i chi lawer o swyddi posibl.

ARBENIGEDD DIWYDIANT



Mae gan ein darlithwyr brofiad ymarferol yn y diwydiant felly, yn ogystal ag ennill gwybodaeth a'r cymwysterau sydd eu hangen i fod yn ymarferydd TG, gewch chi'r sgiliau sy'n uniongyrchol berthnasol ar gyfer y gweithle.



AR GYFARTALEDD, MAE RHEOLWYR TG YN ENNILL £43,000 Y FLWYDDYN

(EMSI, 2022)



BETH NESAF? >>>

Gallwch chi fynd yn eich blaen i astudio ystod o gyrsiau lefel prifysgol mewn cyfrifiadura a thechnoleg ddigidol yma yn Coleg Gwent. Bydd rhai o'n myfyrwyr cyfrifiadura a TG yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ym mhob cwr o'r DU, gan astudio cwrs technoleg cyffredinol neu arbenigo mewn meysydd megis seiber ddiogelwch, rhaglennu neu lunio rhwydweithiau. Fel arall, gallwch chi roi eich sgiliau ar waith yn y gweithle, gyda swydd fel dadansoddwr cymorth TG, datblygwr meddalwedd, technegydd cymorth TG neu beiriannydd rhwydwaith a llawer mwy.

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Technolegau Digidol	3	C
Cyfrifiadura	3	C DC
Cyfrifiadura Coleg Seiber	3	BG
Technoleg Gwybodaeth a Chreadigol	2	BG C DC T
Technoleg Gwybodaeth	3	T
Technoleg Gwybodaeth a Seiberddiogelwch	2	BG
Defnyddwyr TG/ Systemau ac Egwyddorion TG	2	DC
Astudiaethau Galwedigaethol - TGCh	1	BG
Astudiaethau Galwedigaethol - TGCh a Busnes	1	C DC

“

Rwyf wrth fy modd gyda phopeth ynghylch y cwrs, yr athrawon, a'r unedau a wnawn, yn enwedig graffeg ddigidol ac animeiddio. Dyma'r coleg gorau oherwydd mae sawl cwrs gwahanol, athrawon da, ac mae'r myfyrwyr yn ei fwynhau ac yn llwyddo. Os ydych wedi methu yn y gorffennol, gallwch wella'ch hun a chyflawni eich nod yn Coleg Gwent!

MOHAMMED MERAM

» CYFRIFIADURA

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.



TROWCH Y DUDALEN I DDYSGU MWY AM GOLEG SEIBER CYMRU

COLEG

SEIBER CYMRU

A ydych chi eisiau dilyn gyrfa o fewn y diwydiant digidol?

Rydym yn rhan o Goleg Seiber Cymru, menter Llywodraeth Cymru sy'n rhoi'r cyfle ichi ddechrau cwrs arloesol o astudio digidol.

Gallwch ennill cymhwyster sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol sy'n gyfwerth â thri phwnc Safon Uwch mewn partneriaeth â chyflogwyr blaenllaw'r diwydiant megis Admiral, Fujitsu a Thales.



FUJITSU



Dŵr Cymru
Welsh Water

THALES

MAE'R CWRS DIPLOMA ESTYNEGIG CENEDLAETHOL BTEC MEWN CYFRIFIADURA YN BERFFAITH AR GYFER YMGEISWYR SYDD:

- Eisiau cwrs astudio sy'n cyfuno gwybodaeth cyfrifiadura a sgiliau ymarferol
- Yn frwd ynghylch gofynion technolegol newidiol y diwydiant
- Yn cael eu hysgogi gan anghenion diwydiant a chyflogwyr i fod yn barod am y gweithle
- Eisiau cyfuno gwybodaeth dechnegol a gwybodaeth fusnes
- Yn dymuno dilyn gyrfa neu astudiaethau pellach yn y byd Seiber neu ddiwydiannau digidol eraill

Rydym wedi cael ein cyflwyno â'r statws

DYFARNIAD AUR
fel Coleg Cyber-First!



EIN CYRSIAU

	Hyd	Lefel	Campws
Cyfrifiaduro Coleg Seibr	1 Flwyddyn	3	BG

“

Mae'r cyfleusterau yma [yn Coleg Gwent] yn rhai penodol ar gyfer seiber. Mae ganddo bopeth sydd ei angen arnom i ddysgu ynghylch seiber a datblygu sgiliau ar gyfer y dyfodol. Nid wyf yn siŵr beth rwyf am ei wneud fel gyrfa eto, ond Seiber yw'r dyfodol a bydd y rhan fwyaf o swyddi'n cynnwys cyfrifiadura, felly mae'n faes da i fynd iddo os nad ydych yn gwybod beth rydych eisiau ei wneud fel swydd.



MIA BIRD

➤➤ CYBER COLLEGES

BETH NESAF? ➤➤



Mae nifer o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ar draws y DU, neu'n syth i fyd gwaith. Gallwch chi fynd yn eich blaen i astudio HND mewn Cyfrifiadura neu Radd Sylfaen mewn Diogelwch TG yn Coleg Gwent, neu ymgymryd ag astudiaethau gwahanol ar lefel brifysgol mewn pynciau fel e-fasnach, gemau cyfrifiadurol, rheoli cronfeydd data a rheoli systemau gwybodaeth.

SAESNEG

» I SIARADWYR IEITHOEDD ERAILL (ESOL)

Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf bydd ein cyrsiau yn eich cynorthwyo chi i wella eich sgiliau Saesneg.

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
ESOL - Sgiliau Bywyd	Mynediad 1	DC
ESOL - Sgiliau Bywyd	Mynediad 2	DC
ESOL - Sgiliau Bywyd	Mynediad 3	DC
ESOL - Sgiliau Bywyd	1	DC
ESOL - Sgiliau Bywyd	2	DC

GALLWN EICH CYNORTHWYO CHI I:

- » Wella eich Saesneg - siarad, gwrando, darllen, ysgrifennu, gramadeg a geirfa
- » Dysgu sut i ysgrifennu'n ffurfiol ac anffurfiol wrth lunio negeseuon e-bost, llythyrau, CVs a cheisiadau am swydd
- » Dysgu ynghylch bywyd yn y DU
- » Dysgu am y sgiliau gwaith rydych eu hangen i gael swydd neu ddyrchafiad yn y gwaith
- » Dysgu am fathemateg gan gynnwys mesur, cyllidebu a sut i ddarllen amserlenni

“

Mae'r athrawon yn Coleg Gwent o gymorth mawr, nid yn unig ar y cwrs ond hefyd pryd bynnag rwyf angen cymorth ac eisiau gofyn cwestiwn. Cael cyswllt â siaradwyr brodorol yw'r peth gorau am y cwrs hwn. Rwy'n teimlo'n gyfforddus yn y coleg ac mae pawb yma o gymorth mawr. Mae yna llawer o wybodaeth dda, ac mae gennym gynllun cwrs eglur iawn.



**ANDRZEJ
NOWAK**
» ESOL



Os hoffech gofrestru ar un o'n cyrsiau, rhaid i chi yn gyntaf ymweld â'n Hwb Reach+ yn Llyfrgell Ganolog, Casnewydd. Yr Hwb yw'r pwynt canolog i unrhyw un sy'n dymuno astudio ESOL. Bydd y tîm yn asesu pob person ac yn eu cyfeirio at y cwrs a'r cymorth iawn. Gellir gwneud apwyntiadau drwy ffonio'r Hwb ar 01633 414917 neu drwy alw heibio'r llyfrgell. Mae'n rhan o Brosiect Integreiddio Ffoaduriaid:ReStart.



AilGychwyn
ReStart



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government

Caiff y prosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid ei ariannu'n rhannol drwy Gronfa Lloches, Ymfudo ac Integreiddio yr Undeb Ewropeaidd. Gwneud rheoli llif ymfudo'n fwy effeithiol ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

The ReStart: Refugee Integration project is part-funded through the European Union Asylum Migration Integration Fund. Making management of migration flows more efficient across the European Union.

ADEILADU

Os ydych chi'n ddysgwyr ymarferol sy'n dyheu am yrfa mewn gosod briciau, gwaith coed, plymio, plastro, peintio ac addurno, arolygu a llawer mwy, mae ein cyrsiau adeiladu yn ddelfrydol i chi!

Gall gyrfa mewn adeiladu fod yn amrywiol a gyda'r sector yn cael ei daro gan brinder sgiliau, mae galw parhaus am adeiladwyr â sgiliau. Mae gennym gysylltiadau gwyth gyda chyflogwyr, sy'n golygu y byddwch chi'n derbyn yr hyfforddiant ymarferol sydd ei angen arnoch, ynghyd â'r cyfle i rwydweithio.

PROFIAD YMARFEROL



Byddwch chi'n ennill profiad ymarferol yn ein gweithdai cyfarparedig ochr yn ochr â chrefftau eraill, felly byddwch chi wedi'ch paratoi'n dda ar gyfer gwaith ar safle adeiladu.

Y DDAMCANIAETH Y TU ÔL I'R ARFER



Byddwch chi'n dysgu'r ddamcaniaeth yn ogystal er mwyn cefnogi'ch sgiliau ymarferol yn ogystal ag iechyd a diogelwch, sy'n hanfodol ym mhob crefft.

DYSGU GAN ARBENIGWYR Y DIWYDIANT



Mae gan ein darlithwyr flynyddoedd o brofiad yn y diwydiant y tu cefn iddynt, felly nid dim ond dysgu gan arbenigwyr fyddwch chi, ond byddwch chi'n cael cyngor ynghylch cael swydd ar ôl gadael coleg neu hyd yn oed gychwyn eich busnes eich hun.



**GALL RHEOLWR SAFLE
ADEILADU PROFIADOL ENNILL
HYD AT £47,500
Y FLWYDDYN**

(EMSI, 2022)



“

Fy hoff ran o'r cwrs yw'r gwaith ymarferol a dysgu sut i ddefnyddio llifau llaw ac offer pŵer. Mae'n ein paratoi ar gyfer y gweithle neu brentisiaeth ar ôl y coleg. Mae'r cyfleusterau i gyd yma, mae popeth sydd ei angen arnom yn y coleg ac mae'r tiwtoriaid yn wych. Mae'n wahanol i'r ysgol, yn y coleg rydych yn cael eich trin fwy fel oedolyn. Ein dewis ni yw bod yn y coleg ac mae er budd i chi.

JAMIE HARRIS

>> DIPLOMA GWAITH COED AR SAFLE

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Peirianeg Sifil	3	DC
Adeiladu ar gyfer yr Amgylchedd Adeiledig	3	DC
Sgiliau Adeiladu (Amlsgiliau)	1	BG DC
Cwrs Sylfaen mewn Gosod Brics a Gwaith tir	2	BG DC
Cwrs Sylfaen mewn Gwaith Saer a Thoi	2	BG DC
Cwrs Sylfaen mewn Trydanol a Phlymio	2	BG DC
Cwrs Sylfaen mewn Peintio ac Addurno	2	BG
Cwrs Sylfaen mewn Plymwaith a Thrydanol	2	BG DC
Gweithrediadau Cynnal a Chadw (Amlsgiliau)	2	DC
Dilyniant mewn Adeiladwaith - Gosod Brics	2	BG DC
Dilyniant mewn Adeiladwaith - Gwaith Coed ar Safle	2	BG DC
Dilyniant mewn Adeiladwaith - Mewnosodiad Trydanol	2	BG DC
Dilyniant mewn Adeiladwaith - Plymio a Gwresogi	2	BG DC

BETH NESAF? >>>



Mae llawer o'n dysgwyr adeiladu yn mynd yn syth i fydd gwaith neu i brentisiaeth yn y maes. Efallai y byddwch chi eisiau astudio HNC/HND mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig neu Beirianeg Sifil yn Coleg Gwent, neu gwrn yn ymwneud ag adeiladu mewn prifysgol arall.

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

PEIRIANNEG

Peirianneg yw cymhwysiad ymarferol a chreadigol gwyddoniaeth a mathemateg. Eich ffôn symudol a gliniadur newydd? Mae peirianwyr electroneg wedi cynorthwyo i wneud y rhain. Y car yr ydych yn teithio ynddo? Gwnaeth tîm o beirianwyr modurol hynny'n bosibl.

Mae peirianwyr yn hanfodol i fywyd bob dydd; o'r ffonau rydym yn eu defnyddio i'r awyrennau rydym yn teithio ynddynt. Mae'r sector yn amrywiol iawn, yn hynod fedrus ac yn talu'n dda.

DATRYN PROBLEMAU



Caniatâ ein labordai trydanol ac electronig i chi ddysgu drwy ddylunio, adeiladu, rhaglennu a phrofi datrysiadau i ddatrys problemau go iawn. Hefyd, golyga ein cysylltiadau agos â busnesau y dysgwch chi y technegau a'r sgiliau diweddaraf y mae cyflogwyr peirianneg eu hangen.

CYFLEUSTERAU O'R RADD FLAENAF



Mae ein hystafell wych o gyfleusterau newydd a gweithdai wedi'u hadnewyddu yn cyd-fynd â'n cwricwlwm cyfredol mewn technoleg deunyddiau, yn cynnwys cyfansoddion ffibr carbon, chwaraeon modurol, gweithgynhyrchu a chyfleusterau awyrenegol a cherbydau trydan.

Mae ein Parth Dysgu Blaenau Gwent yn gartref i Ganolfan Deunyddiau Uwch Dennison (DAMC), y cyntaf o'i math yng Nghymru.



**AR GYFARTALEDD, MAE
PEIRIANWYR TRYDANOL
YNG NGHYMRU YN ENNILL
£44,700 Y FLWYDDYN**



BETH NESAF? >>>

Mae nifer o'n myfyrwyr peirianneg yn mynd ymlaen i astudio yma yn Coleg Gwent neu mewn prifysgolion ar draws y DU. P'un ai ydych chi eisiau astudio cyd-destun cyffredinol, arbenigedd neu roi'r hyn a ddysgwyd gennych chi ar waith, bydd Coleg Gwent yn eich cefnogi i lwyddo yn eich dewis chi o yrfa.

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Weldio a Ffabrigo	1	DC
Technolegau Peirianeg	1	C
Technolegau Peirianeg (Gwneuthuriad a Weldio)	3	DC
Technolegau Peirianeg (Gweithgynhyrchu Uwch)	3	DC
Diploma mewn Peirianeg	2	BG
Diploma mewn Gweithrediadau Peirianeg	2	C
Peirianeg (Technoleg Drydanol ac Electronig)	2	C
Peirianeg (Gwneuthuriad a Weldio)	2	DC
NVQ PEO (Gwneuthuriad a Weldio)	2	DC
Peirianeg (Trydanol)	3	C
Rhaglen Beirianeg Uwch - Trydanol	3	C
Rhaglen Beirianeg Uwch - Mecanyddol	3	C
Peirianeg Awyrennol	3	BG
Peirianeg Fecanyddol	1	DC
Peirianeg Fecanyddol	2	DC C
Peirianeg Fecanyddol	3	C
Peirianeg Sifil	3	DC

“

Coleg Gwent oedd y digwyddiad agored cyntaf es i ac roedd yn anhygoel. Roeddwn wrth fy modd y campws, yr ystafelloedd, y cyfleusterau a'r athrawon. Fe wnaeth i mi fod eisiau mynd i mewn gwirionedd Coleg Gwent. Ers dechrau, rydw i wedi cael llawer help gan yr athrawon – ni allaf feddwl am lle gwell i gael help a phobl i siarad i os ydych ei angen. Mae'n dîm cefnogi gwych.

JAMES MARTIN

» PEIRIANNEG AWERYNOL

TRIN GWALLT A THERAPI HARDDWCH

Mae gweithwyr proffesiynol yn y diwydiannau gwallt, harddwch, colur a therapïau cyflenwol amrywiol, cyffrous a gwerth chweil yn aml ar frig y polau cenedlaethol o weithwyr bodlon yn y DU.

PROFIAD YMARFEROL



Byddwch chi'n cael y profiad ymarferol y mae cyflogwyr ymchwilio amdano yn ein salonau a chlinigau masnachol.

DATBLYGU SGILIAU POBL



Bydd angen sgiliau pobl da i ddarparu gwasanaeth cwsmer o'r ansawdd uchaf yn ogystal â chreadigrwydd ac ymwybyddiaeth o ffasiwn, fel y gallwch chi gynghori cleientiaid ar yr edrychiad gorau iddyn nhw.

ARBENIGEDD DIWYDIANT



Mae gan ein darlithwyr flynyddoedd o brofiad y tu cefn iddynt, felly nid dim ond dysgu gan arbenigwyr fyddwch chi, ond byddwch chi'n cael cyngor ynghylch cael swydd ar ôl gadael coleg neu hyd yn oed gychwyn eich busnes eich hun.

BETH NESAF? >>

Gallwch chi wneud cynnydd pellach â'ch astudiaethau yn Coleg Gwent, a pharhau i wella eich sgiliau ymarferol mewn colur, neu ddysgu sgiliau newydd mewn prostheteg, castio corff dynol a gwneud mygydau. Byddwch chi hefyd yn barod i fynd yn syth i fyd gwaith, gydag opsiynau yn cynnwys gweithio mewn salon, sba neu fel therapïdd llawrydd, gweithiwr trin gwallt neu artist colur.



**MAE 60% O BOBL
SY'N GWEITHIO YN Y
DIWYDIANT HWN YN
HUNANGYFLOGEDIG**

(NHBF Ystadegau Allweddol
Diwydiant 2020)



EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Barbro	2	BG DC
Barbro	3	BG
Therapi Harddwch	2	BG C DC
Therapi Harddwch	3	BG C DC
Therapiau Cyflewnol	3	C
Celfyddyd Trin Gwallt a Cholor y Cyfryngau	2	C
Trin Gwallt a Harddwch	1	C
Trin Gwallt	1	BG C DC
Trin Gwallt	2	BG C DC
Trin Gwallt	3	BG C DC
Technoleg Ewinedd	3	BG
Colur Theatraidd	3	C

“

Byddwn yn argymhell y cwrs Therapiau Cyflenwol yn Coleg Gwent. 100%. Mae'r cwrs yn eich helpu i fagu hyder gan eich bod yn cyfarfod pobl newydd o hyd, ac rydych chi'n cael llawer iawn o wybodaeth ynghylch y corff - mae cymaint o fanylder i'r cwrs! Mae'r athrawon yma'n wych - mae o fel cael ffrind. Rwy'n edrych ymlaen at fynychu'r coleg. Rwyf wedi gwneud llawer o ffrindiau hefyd ac mae'r grŵp yn un clos. Rydym i gyd o'r un anian!

SIÂN SAMANTHA HOWELLS

»» THERAPIAU CYFLENWOL

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

IECHYD, GOFAL A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR

Gall gyrfa mewn gofal roi llawer o foddhad i chi a gall gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl eraill.

Mae gweithio gyda phlant yn swydd heriol iawn, ond ychydig iawn o feysydd gwaith sydd mor amrywiol a buddiol. Mae gofalu am blant a chynorthwyo i'w haddysgu yn gyfrifoldeb mawr, a dyna pam y byddwch chi angen hyfforddiant cydnabyddedig i weithio mewn rôl gofal plant. Yn yr un modd, byddwch chi angen cymwysterau wrth weithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol.



DARLITHWYR DIBYNADWY

Pan fyddwch chi'n astudio gyda ni, byddwch chi'n gweld yn bersonol sut beth yw bod yn rhan o'r sector gyda chymorth ein darlithwyr sydd wedi cael profiad mewn sawl rôl iechyd a gofal cymdeithasol.



PROFIAD YMARFEROL

Mae'r rhan fwyaf o'n cyrsiau yn cynnwys profiad gwaith, felly gallwch chi ennill y profiad ymarferol mae cyflogwyr yn chwilio amdano, gan roi mantais i chi pan fyddwch chi wedi cymhwyso.




**GALL ARBENIGWYR
PROFIADOL YN Y SECTOR
HWN ENNILL HYD AT
£39,000 Y FLWYDDYN**

(EMSI, 2021)



BETH NESAF? >>

Gallwch chi astudio amrywiaeth o gyrsiau prifysgol yn Coleg Gwent neu fentro i fyd gwaith fel gweithiwr gofal, cynorthwydd gofal plant neu weithiwr cefnogi; mae'r sector hynod amrywiol yn cynnig cannoedd o gyfleoedd. Bydd rhai o'n myfyrwyr yn mynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ym mhob cwr o'r DU, gan astudio cyrsiau gofal cyffredinol neu arbenigo mewn meysydd megis gwaith cymdeithasol, gwyddor iechyd neu nyrso.



EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion	2	DC
Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion	3	DC
Gofal, Chwarae, Dysg a Datblygiad Plant	2	BG C DC T
Gofal, Chwarae, Dysg a Datblygiad Plant*	3	BG C DC T
Therapiau Cyflewol	3	C
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	2	BG C DC T
Iechyd a Gofal Cymdeithasol	3	BG C DC T
Astudiaethau Galwedigaethol - Gofal Plant ac Iechyd a Gofal	1	BG C DC T

*Mae unedau dwyieithog ar gael ar gyfer y cwrs hyn.

“

Dewisais i'r coleg yn hytrach na'r chweched dosbarth oherwydd fy mod eisiau dianc o amgylchedd yr ysgol a chwrdd â phobl newydd. Doedd dim llawer o bobl yr oeddwn yn eu hadnabod yma, felly roedd yn gyfle i wneud mwy o ffrindiau. Fe fynychais i ddigwyddiad agored ac roeddwn eisiau gwenud cais ar ôl gweld yr holl gyfleusterau, cwrdd â'r staff a cherdded o amgylch. Rwy'n bwriadu mynd i brifysgol ar ôl y coleg, ac mae'r cwrs hwn yn fy nghynorthwyo i weithio tuag at hynny.

OLIVER FARRELL

» IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL

Mae yna ystod o gyrsiau ar gael sy'n addas i fyfyrwyr o amrywiol gefndiroedd a gallu addysgiadol.

Fe wnawn ni eich cynorthwyo chi i ddysgu rheoli eich arian eich hun, coginio eich bwyd eich hun, cynllunio eich gyrfa eich hun a byw bywyd annibynnol yn eich cymuned.

GWEITHGAREDDAU CYFFROUS



Byddwch chi hefyd yn mynd ar deithiau ac ymweliadau i leoliadau megis amwynderau, amgueddfeydd ac atyniadau twristiaeth lleol ynghyd â chyfranogi mewn gweithgareddau codi arian a menter.

DYSGU SGILIAU HANFODOL



Ynghyd â dysgu sgiliau ymarferol, byddwn ni'n eich cynorthwyo chi i gynyddu eich hunanhyder i'ch cynorthwyo chi i fyw bywyd gweithgar. Byddwch chi'n astudio cymysgedd o sgiliau galwedigaethol a chreadigol fel celf a chrefft, coginio, garddio a TG, ynghyd â pharhau i wella eich llythrennedd, rhifedd a sgiliau hanfodol eraill.

BETH NESAF? >>>



Mae ein holl gyrsiau yn flwyddyn o hyd. Gallwch chi wneud cynnydd un ai o fewn ILS neu o bosib, ymgeisio am gyrsiau prif ffrwd yn y coleg.

DARPARU AR GYFER EICH ANGHENION



Nid oes gofynion mynediad ffurfiol gan ystyri'r anghenion bob dysgwr ar sail unigol; byddwn yn asesu eich anghenion unigol chi i sicrhau eich bod chi'n cofrestru ar y cwrs iawn i chi. Byddwch chi'n cael y cyfle i fynychu rhaglen drosglwyddo lle gallwch chi gwrdd â'r tiwtoriaid, mynychu rhai gwersi a dod i adnabod y coleg cyn i chi ddechrau.

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio yn canolbwyntio ar y pedwar piler canlynol:

- 1 Iechyd a lles
- 2 Cyflogadwyedd
- 3 Sgiliau byw'n annibynnol
- 4 Cyfranogiad cymunedol

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws			
Sgiliau Byw'n Annibynnol	Mynediad	BG	C	DC	T
Mynediad Paratoi ar gyfer Astudiaethau Galwedigaethol	Mynediad	BG	C	DC	T
Mynediad Paratoi ar gyfer Chefnogaeth gyda Interniaeth/Gwaith Lleoliad	Mynediad	BG	C	DC	T
Interniaeth gyda Chefnogaeth	Mynediad	BG	C	DC	T



“

Rydym yn cael llawer o hwyl ar y cwrs. Y peth gorau ynghylch y cwrs yw'r tiwtoriaid, maen nhw'n llawn hwyl. Rwyf wedi cwrdd â nifer fawr o bobl newydd ac wedi gwneud ffrindiau hefyd. Gallwch chi roi tro ar unrhyw beth yn cynnwys; coginio, peintio, garddio ac aml chwaraeon. Rydym yn cael cerddoriaeth ar ddydd Mercher hefyd - rwyf wrth fy modd!

CAMERON NUTT

» SGILIAU BYW'N ANNIBYNNOL

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

CERBYDAU MODUR

Os ydych chi'n frwd ynghylch ceir a beiciau modur, bydd ein cyrsiau cerbydau modur yn eich galluogi chi i archwilio'ch diddordeb, wrth ddatblygu eich sgiliau mecanyddol i ennill cymhwyster cydnabyddedig.

Mae gan y rhan fwyaf o aelwydydd heddiw un car o leiaf, ac mae llawer o sectorau yn dibynnu ar gerbydau gwasanaeth. Felly, mae yna alw cynyddol am fecanyddion, gosodwyr, rheolwyr a thechnegwyr.



HOGI EICH SGILIAU

Byddwch chi'n hogi'ch sgiliau mewn gweithdai o'r radd flaenaf gyda mynediad at offer llaw a pheiranyddol traddodiadol, ynghyd â pheiriannau a reolir gan gyfrifiaduron a phrototeipio cyflym.



**MAE GALW MAWR AM
BEIRIANWYR MECANYDDOL
YNG NGHYMRU, GDYDA BRON I
3,000 O BOBL
WEDI'U CYFLOGI YN Y RÔL
— MAE HYNFY 14% YN UWCH
NA'R CYFARTALEDD CENEDLAETHOL**

(EMSI, 2022)

“

Roeddwn i'n nerfus iawn yn dod i coleg fel dysgwr aeddfed gwneud rhywbeth nad oeddwn wedi ei wneud o'r blaen, ond dyna'r penderfyniad gorau dwi erioed wedi gwneud. Mae ond cwpl o ferched yn fy nosbarth, ond er hyny, teimlaf fy mod yn ffitio mewn gyda'r dosbarth - maen nhw i gyd croesawgar. Rwyf wrth fy modd yn dysgu'r mewn ac allan o geir a dysgu am y car diwydiant. Mae'r cyfleusterau yma yn wych ac yn debyg i'r safon diwydiant y byddech yn dod o hyd a yn y rhan fwyaf o garejys.

COURTNEY WILLIAMS
» CYNNAL A CHADW CERBYDAU

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Atgyweirio Damweiniau (Corff a Phaent)	1	DC
Egwyddorion Paent Atgyweirio Damweiniau	2	DC
Cynnal a Chadw Cyffredinol Cerbydau (FTC1)	Mynediad 3	C DC
Cynnal a Chadw Cerbyd Ysgafn	1	C DC
Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn Allanol	2	C
Egwyddorion Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn	2	C DC
Egwyddorion Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau Ysgafn	3	C DC
Egwyddorion Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Beiciau Modur	2	C
Egwyddorion Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Beiciau Modur	3	C
Peirianeg Chwaraeon Modur	3	BG
Ffit Cyflym Cerbyd	2	C DC

BETH NESAF? >>>



Mae nifer o'n dysgwyr cerbydau modur yn mynd ymlaen i gwrs arall yma yn Coleg Gwent. P'un ai ydych chi eisiau astudio cyd-destun cyffredinol, arbenigedd neu roi'r hyn a ddysgwyd gennych chi ar waith, bydd Coleg Gwent yn eich cefnogi chi i lwyddo yn eich dewis o yrfa.

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

CERDDORIAETH, DRAMA A DAWNS



Mae'r diwydiant hwn yn ymwneud â gwefr greadigol, egni ac ysgogiad. Os ydych chi'n gartrefol ar y prif lwyfan, yn y stiwdio recordio neu'r llawr dawns, yna efallai bydd gennym cwrs i chi.

Mae Cymru yn gwneud enw iddi hi ei hun yn y diwydiannau creadigol, un o'r sectorau sy'n tyfu gyflymaf yn y wlad, drwy gynhyrchu sioeau teledu hynod boblogaidd ac fel cartref i gerddorion a chantorion enwog. Pam na wnewch chi ychwanegu at y sêr hynny drwy astudio gyda ni heddiw?

Y CELFYDDYDAU PERFFORMIO



Fel myfyriwr y celfyddydau perfformio cewch chi ddefnyddio ein stiwdios ymarfer o'r radd flaenaf, cyn troedio ar y llwyfan yn ein theatrau llawn offer. Byddwch chi'n cymryd rhan mewn perfformiadau byw ar gyfer teulu, ffrindiau a'r cyhoedd - profiad gwych i'w roi ar eich CV.

CERDDORIAETH



Mae cerddoriaeth yn well gyda chi. Yn amrywiol ac eang, mae swyddi yn y diwydiant cerddoriaeth yn cynnwys cerddorion, cyfansoddwyr caneuon, cynhyrchwyr a rheolwyr, a llawer mwy. O weithio ar y radio, mewn gwyliau ac yn y stiwdio recordio, mae gwahanol lwybrau ar gael i chi. Gallwch chi hefyd fynd ymlaen i'r maes newyddiaduraeth, addysgu a marchnata, gan arbenigo mewn cerddoriaeth.



**YN NODWEDDIADOL,
MAE ACTORION, DIDDANWYR A
CHYFLWYNWYR YN ENNILL
£58,240 YNG NGHYMRU**

(Cymru Greadigol, 2021)

BETH NESAF? >>>

Gallwch chi aros yn agosach at adref a gwneud cymhwyster lefel prifysgol neu radd sylfaen mewn cerddoriaeth neu berfformio yn Coleg Gwent; gall myfyrwyr Gradd Sylfaen yn y Celfyddydau Perfformio ennill profiad ymarferol uniongyrchol o'r diwydiant, diolch i'n partneriaeth â Theatr Glan yr Afon yng Nghasnewydd. Fel arall, gallwch chi fynd ymlaen i astudio mewn prifysgolion ac ysgolion drama ledled y DU. Bydd gennych chi hefyd yr opsiwn i roi eich dysg ar waith mewn swyddi megis rheoli llwyfan, newyddiaduraeth cerddoriaeth, actio, cyfarwyddo a llawer mwy!

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Perfformiad a Thechnoleg Cerdd	2	C
Cerddoriaeth	3	C
Cerddoriaeth (Llwybr Technoleg)	3	C
Ymarferwyr Cerdd	3	BG
Y Celfyddydau Perfformio	2	C
Celfyddydau Perfformio a Chynhyrchu Y Celfyddydau Perfformio	3	C

“

Mae'r athrawon yn wych - maen nhw'n hamddenol, yn brofiadol, yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud, yn gyfeillgar ac yn gefnogol. Rydym yn gwneud llawer o waith cyfansoddi ac rydym yn cael rhai traethodau, yn dysgu llawer o ganeuon newydd, yn ymarfer a pherfformio - rwyf wrth fy modd. Mae'r cyfleusterau'n wych ac mae'r offer bob amser yn cael eu diweddarau.

EWAN WAREHAN

» PERFFORMIO CERDDORIAETH

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

MYNEDIAD I BRIFYSGOL

>> LLWYBR AT RADD

Mae gradd prifysgol yn gyraeddadwy hyd yn oed os nad oes gennych chi unrhyw gymwysterau blaenorol.

Bydd cwrs Mynediad at Addysg Uwch yn eich cynorthwyo chi i ddatblygu'r wybodaeth, yr hyder a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch chi i'ch paratoi at y brifysgol.



DIGONEDD O DDEWIS

Gallwch chi ddewis o amrywiaeth o lwybrau i'ch arwain chi at eich cwrs gradd dewisol, ac yna'r swydd ddelfrydol. Byddwch chi'n dysgu sut i fynd ati i astudio a'r technegau gwahanol y byddwch chi eu hangen i lwyddo.



CANFOD EICH CYFLYMDER

Mae nifer yn bryderus wrth gychwyn cwrs Mynediad i Addysg Uwch, yn enwedig os nad ydynt wedi bod mewn dosbarth ers peth amser. Ni fyddwn yn ceisio'ch baglu nac yn eich profi am bethau yr ydych chi wedi eu hanghofio flynyddoedd yn ôl. Er bydd rhai agweddau o'r cwrs yn heriol, prif bwrpas cwrs Mynediad i Addysg Uwch yw eich cynorthwyo chi i fod yn llwyddiannus.



ADEILADU EICH SGILIAU

Rydym hefyd yn cynnig cwrs Cyn-mynediad (Sgiliau ar gyfer Astudiaeth Bellach) sy'n canolbwyntio ar sgiliau academiaidd i'ch cynorthwyo chi i fynd ymlaen at gwrw Mynediad i Addysg Uwch.

PAM ASTUDIO CWRW MYNEDIAD I ADDYSG UWCH?

1 Gwella Rhagolygon

Bydd yn agor drysau newydd, ei gwneud hi'n bosibl i chi fod yn llwyddiannus a'ch cynorthwyo chi i gael yr yrfa ddelfrydol.

2 Datblygu Sgiliau Hanfodol

Mae'n profi bod gennych chi sgiliau gwerthfawr megis astudio'n annibynnol a chwrdd â therfynau amser.

3 Dangoswch Eich Gallu

Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn gofyn am radd, mae'n dangos eich bod chi'n gymwys.

4 Profi eich hun

Mae'n profi y gallwch chi ymrwymo i rywbeth, ymdopi â gwaith caled a mynd pob cam o'r ffordd.

5 Profiad Gwych

Yn ogystal â rhoi cymhwyster i chi, byddwch chi'n ennill lluo o brofiadau a byddwch chi'n sicr yn gwneud cysylltiadau i'ch cynorthwyo yn y dyfodol.

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Mynediad at AU - Cyllid a Busnes	3	T
Mynediad at AU - Gwyddorau Iechyd Meddygol	3	BG DC
Mynediad at AU - Meddygaeth	3	C
Mynediad at AU - Nyrsio ac Astudiaethau Gofal Iechyd	3	BG C DC T
Mynediad i AU - Plismona a Gwasanaethau Cyhoeddus	3	BG
Mynediad at AU - Gwyddoniaeth	3	C T
Mynediad i AU - Gofal Cymdeithasol	3	C
Mynediad i AU - Y Dyniaethau a gwyddorau cymdeithasol	3	BG DC
Sgiliau ar gyfer Astudiaeth Bellach	2	BG C DC T



Byddwn yn argymhell Llwybr at Radd yn Coleg Gwent oherwydd nid yw'r profiad yn eich gorlethu, mae cryn dipyn o amser rhydd ar gyfer dysgu annibynnol ac mae popeth sydd ei angen arnoch yn y Coleg. Mae'r coleg yn eich paratoi ar gyfer y brifysgol yn llawer gwell nag ysgol uwchradd. Rwy'n gwybod llawer mwy nawr nag oeddwn yn y chweched dosbarth. Rwy'n ei fwynhau a minnau'n fyfyrwr hŷn, oherwydd mae'r dysgwyr yn fy nosbarth yn hŷn - rydym ni i gyd oddeutu'r un oedran ac yma am reswm.

ZUZANNA KALEK

» MYNEDIAD AT Y BIOWYDDORAU

BETH NESAF? »

Mae Cyrsiau Mynediad i Addysg Uwch yn cael eu cynnwys yn nhariff UCAS a chânt eu derbyn yn eang gan brifysgolion y DU, ond dylech chi wirio gyda'r brifysgol benodol y dymunwch chi fynd iddi. A fyddai'n well gennych chi aros yn eich milltir sgwâr ac arbed arian? Gallai cwrs lefel prifysgol yn Coleg Gwent fod yn berffaith i chi.

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

GWYDDONIAETH

Roboteg, deallusrwydd artiffisial, gwyddoniaeth fiofeddygol a chyfrifiadureg fforensig yw ond rhai o'r gyrfaedd cyffrous sydd ar gael yn y maes gwyddoniaeth.

Byddwch chi'n dysgu sut i gymhwyso egwyddorion gwyddonol i broblemau ymarferol, fel y gallwch chi weithio tuag at ddod o hyd i iachâd i afiechydon, datrys problemau amgylcheddol, neu ddatblygu technoleg newydd.



SAFON DIWYDIANT

Cewch chi brofiad ymarferol yn ein labordai gwyddoniaeth pwrpasol, y cyfan ag offer safonol y diwydiant!



CYFOETH O BROFIAD

Cewch chi gymorth gan ein darlithwyr arbenigol, sy'n gyfoeth o wybodaeth, a chewch chi gymorth gan dechnegwyr sydd â phrofiad diwydiannol a fforensig helaeth.



DYFODOL DISGLAIR

Fel un o'r pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg), gall cymhwyster mewn Gwyddoniaeth agor y drysau i nifer o yrfaedd cyffrous yn y dyfodol.



A WYDDOCH CHI?

Mae llawer o'r cwmnïau technoleg sy'n dibynnu ar weithwyr proffesiynol yn gwmnïau byd-eang. Felly, gallai gyrfa yn y sector hwn eich gweld chi'n teithio'r byd, yn datrys heriau rhyngwladol, neu'n gweithio mewn labordai fforensig yn y DU neu dramor.



BETH NESAF? >>

Mae nifer o fyfyrwyr gwyddoniaeth yn mynd ymlaen i astudio cymhwyster prifysgol yn Coleg Gwent, neu'n mynd ymlaen i gyrsiau yn y prifysgolion gorau ar draws y DU. Gallwch chi ddilyn cwrs gwyddoniaeth cyffredinol neu arbenigo mewn meysydd megis gwyddorau bywyd neu ddynol, gwyddor ffforensig neu seicoleg. Neu gallwch chi roi'r hyn rydych wedi'i ddysgu ar waith mewn swyddi megis swyddi gwyddonol ar lefel iau.

“

Dewisais i astudio Gwyddoniaeth yn Coleg Gwent oherwydd bod yn well gen i'r amgylchedd coleg. Mae'r tiwtoriaid yn anhygoel yn ein cynorthwyo gyda'n gwaith. Maen nhw'n wahanol i athrawon yn yr ysgol, maen nhw'n fwy agored, yn fwy hamddenol ac yn ein trin ni'n well. Y peth gorau am Coleg Gwent yw'r profiad rydym yn ei gael yn y coleg, a'r ffaith ei fod wir yn cefnogi pwy yw pob unigolyn, ac mae cymorth parod ar gael, yn ogystal â thiwtorïaid ar gyfer cymorth gyda'r cwrs.

ARC SHARP

>> **BTEC GWYDDONIAETH GYMHWYSOL**

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Gwyddoniaeth Gymhwysol	2	DC
Gwyddoniaeth Gymhwysol	3	C DC T

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

CHWARAEON, FFITRWYDD A HAMDDEN

Dilynwch ôl traed eich arwyr chwaraeon gyda gyrfa mewn hyfforddi, rheoli, gwyddor ymarfer corff, neu therapi!

Bydd ein cyrsiau yn eich paratoi chi ar gyfer y proffesiynau cyffrous hyn, felly gallwch chi weithio mewn clwb iechyd, dod yn hyfforddwr gweithgareddau, neu arbenigo mewn adsefydlu chwaraeon. Mae digon o dimau chwaraeon ymwneud â hwy ar bob campws hefyd.



**MAE HYFFORDDWR PERSONOL
HUNANGYFLOGEDIG YN
ENNILL ODDEUTU £20 - £40
AM SESIWN UN AWR**

(Gyrfa Cymru, 2022)



**ACADEMI
RYGBI'R
DREIGIAU**

Mae Campws Crosskeys yn gartref i Academi Rygbi Iau'r Dreigiau lle gall chwaraewyr yn ennill cymwysterau cyfochr ag ennill sgiliau ar y cae.



BETH NESAF? >>

Mae rhai o'n dysgwyr yn dewis mynd ymlaen i gwrs lefel uwch mewn Prifysgol neu Coleg Gwent. Fel arall, gallwch chi gamu'n syth i'r byd gwaith. Yn dibynnu ar eich cwrs chi, gallai opsiynau gyrfa gynnwys athletwr proffesiynol, hyfforddwr personol, hyfforddwr llesiant a mwy!

Nodyn: Gall pob cwrs newid a'u canslo os tybir nad yw'n bosib eu cynnal.

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Tystysgrif mewn Datblygiad Personol a Chymdeithasol	2	BG
Tystysgrif Arweinyddiaeth Drwy Chwaraeon	2	BG
Iechyd, Ffitrwydd ac Ymarfer Corff	2	B
Atgyfeirio Ymarfer Corff	3	B
Hyfforddiant Personol - Tystysgrif	3	B
Hyfforddiant Personol (Ymarferydd) YMCA	3	BG C B
Chwaraeon	2	C
Chwaraeon	3	BG C T
Therapi Tylino'r Corff yn Chwaraeon	3	B

“

Byddwn yn bendant yn argymhell Coleg Gwent, mae gan y cwrs lawer o amrywiaeth yn cynnwys pêl-droed, rygbi, hyfforddi athletau, pêl-rwyd a mwy. Mae'r system cymorth gan y tiwtoriaid yn dda iawn hefyd. Gallwch chi fynd atynt gydag unrhyw beth a gallant eich cynorthwyo chi! Rydych chi'n llawer agosach at eich tiwtoriaid yn y coleg ac maen nhw'n llai llym nag athrawon yn y dosbarth chweched. Byddwn yn cynghori unrhyw un i fynd i'r coleg yn hytrach na'r ysgol oherwydd mae'n rhoi mwy o annibyniaeth ac ysgogiad i chi.

DARNIA COLEMAN

CHWARAEON BTEC



GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Efallai fod gennych chi ddiddordeb i fod yn heddw neu'n barafeddyg? Neu efallai wedi breuddwydio am fod yn fôr-filwr neu eisiau bod yn ddiffoddwr tân?

Mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn sail i'n cymunedau, ac mae'r rheiny sy'n dilyn gyrfa mewn un o'r gwasanaethau mewn lifrai neu wasanaeth heb lifrai yn chwarae rhan bwysig o fewn cymdeithas. Drwy astudio gyda ni, byddwch chi'n cael y cyfle i ddod yn gadét heddlu mewn partneriaeth â Heddlu Gwent.

“

Byddwn yn argymhell Coleg Gwent oherwydd mae gan y darlithwyr llawer o brofiad yn y diwydiant; roedd un o'n darlithwyr yn gweithio gyda'r heddlu ac felly'n gallu rhannu llawer o'i brofiad gyda ni. Byddwch chi'n cael mwy o amrywiaeth na fydddech yn ei gael yn yr ysgol; mae'r gwasanaeth tân wedi bod i mewn i wneud sesiwn ymarferol gyda ni, rydym ni hefyd wedi cael sesiwn gyda'r heddlu ac wedi dysgu ynghylch ASBOs a chawsom wobwr ar y diwedd, rydym ni hefyd wedi dysgu sut i asesu safleoedd trosedd, oedd yn werth chweil.

ELINA STEPHENS

>> GWASANAETHAU CYHOEDDUS

CYFLOG CYFARTALOG SWYDDOG
YR HEDDLU PROFIADOL YW

£43,000

(Gyrfa Cymru, 2022)



BETH NESAF? >>>

Gallwch chi fynd ymlaen i astudio cymhwyster lefel uwch yn Coleg Gwent, neu fel arall fynd yn syth i fyd gwaith. Gall opsiynau gyrfa gynnwys diffoddwr tân, swyddog yr heddlu, ymchwilydd safle trosedd a mwy!



EIN CYRSIAU

	Lefel	Camps
Astudiaethau Galwedigaethol – Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus	1	BG C
Gwasanaethau Cyhoeddus	2	BG C T
Gwasanaethau Cyhoeddus	3	BG C T

TEITHIO A THWRISTIAETH

Os ydych chi'n teithio'r byd fel stiward awyren, cynrychiolydd gwyliau neu'n cynorthwyo eraill i wireddu eu dyheadau teithio, gallwch chi fynd yr holl ffordd at reoli; cychwynnwch eich taith gyda ni.



“

Byddwn i'n argymhell Coleg Gwent oherwydd, mae'r unedau'n hwyliog a difyr, ac rydym ni'n dysgu ynghylch yr hyn sy'n mynd ymlaen tu ôl i'r llenni yn y diwydiant teithio. Mae'r cwrs yn eich paratoi chi ar gyfer byd gwaith yn y dyfodol ac rydym ni wedi dysgu sgiliau megis gwaith tîm, cyfathrebu, gwasanaeth cwsmer, a sgiliau pobl. Mae'r athrawon yn hyfryd ac yn hollol wahanol i'r chweched dosbarth - Maen nhw'n cael hwyl ac yn tynnu coes, ond eto'n barod iawn i'n cynorthwyo ni os ydym ni'n cael trafferth.

FIN DAVIES

» TEITHIO A THWRISTIAETH

MAE GAN BOB UN O'N DYSGWR WNEUD CAIS AM GYLLID ERASMUS AC YMWELD Â GWLAD EWROPEAIDD FEL RHAN O'U HASTUDIAETHAU ER MWYN CAEL PROFIAID UNIONGYRCHOL!



BETH NESAF? »



Gallwch chi fynd ymlaen i astudio cymhwyster lefel uwch mewn prifysgol, neu fel arall fynd yn syth i fyd gwaith. Gall opsiynau gyrfa gynnwys ymgynghorydd Teithio, cynrychiolydd gwyliau, criw awyren, cynorthwydd maes awyr a mwy!

EIN CYRSIAU

	Lefel	Campws
Teithio a Thwristiaeth	2	C
Teithio a Thwristiaeth	3	C

CYRSIAU LEFEL PRIFYSGOL

» YMA AR GARREG EICH DRWS



A WYDDOCH CHI Y GALLWCH CHI ENNILL CYMHWYSTER LEFEL PRIFYSGOL YN COLEG GWENT?

Mae gennym nifer cynyddol o gyrsiau addysg uwch, felly beth am edrych ar ein gwefan i ddysgu mwy?

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/AU



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



CYRSIAU RHAN AMSER

» LLWYDDWCH A CHYFLAWNWCH



MAE GENNYM NI AMRYWIAETH ENFAWR O GYRSIAU RHAN AMSER HYBLYG AC AM DDIM SY'N ADDAS I CHI.

Cymerwch olwg ar ein gwefan

» WWW.COLEGGWENT.AC.UK/RA

